# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2018/19

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Carwyn Jones
**Parti:** Plaid Cymru **Ward:** Seiriol

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | Crynodeb o Bresenoldeb |
|---|---|
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Manylion ar wefan y Cyngor: Presenoldeb |
| Is-Bwyllgor Indemniadau | |
| Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Cyngor Sir Ynys Môn | |
| Pwyllgor Adfywio | |
| Y Pwyllgor Gwaith | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau – fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff Allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru | Gweler:<br><br>Twristiaeth - gweithio gydag Awdurdodau eraill Gogledd Cymru a'r sector i hyrwyddo twristiaeth |

| | |
|---|---|
| Llywodraethwr Ysgol – Ysgol Gynradd Llandegfan | http://ysgolllandegfan.cymru/index.html<br>Ysgol Llandegfan - Arwain y Corff Llywodraethu fel Cadeirydd |
| Llywodraethwr Ysgol – Ysgol David Hughes | http://ysgoldavidhughes.org<br>YDH - cyfrannu'n llawn fel llywodraethwr ac aelod o'r pwyllgor personél a chyllid. |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Gan weithio gyda'r Cynghorydd Alun Roberts a'r Cynghorydd Lewis Davies, rydym yn mynychu Cynghorau Cymuned Llanddona, Llangoed a Phenmon, Cwm Cadnant a Chyngor Tref Biwmares.

Rwy'n aelod o Gynghrair Seiriol ac rydym yn edrych ar gydweithio ar draws wardiau.

Gwirfoddoli fel Marsial a chefnogi Taith Feics Seiriol.

Roeddwn yn falch iawn bod Eisteddfod Llandegfan wedi gofyn i mi arwain y sesiwn prynhawn o gystadlu.

Wedi helpu nifer o faterion tai yn lleol, gan gynnwys anghenion cynnal a chadw a llety.

Wedi mynd â'r frwydr i'r pen gyda BT mewn ymgyrch gyhoeddus i ddatrys problem gan drigolion Llansadwrn oedd wedi bod heb linell ffôn am fis.

Ynghyd ag aelodau eraill o'r gymuned, fe wnes helpu i ennill Diffibriliwr ar gyfer Llandegfan, gan wedyn weithio gyda'r Cyngor Cymuned i brynu cabinet, ac yna gyda'r ysgol i'w osod ar y wal allanol. Wedi hynny, trefnais sesiwn ymwybyddiaeth gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn yr ysgol ar gyfer y gymuned.

Eto eleni mae Safle Lairds wedi bod yn amlwg ar fy agenda ac rwyf wedi parhau i gyfathrebu gyda'r perchnogion a Datblygu Economaidd.

Wedi mynychu cyfarfodydd Grŵp Di-blastig Biwmares.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cadeirydd Sioe Geffylau a Merlod Llanddona a Biwmares; gyda'n gilydd fe wnaethom drefnu'r 44ain sioe ar ôl seibiant o dair blynedd.

Rôl wleidyddol arweiniol wrth baratoi am Brexit.

Fe wnes ymweld ag Arglwydd Faer a Chyngor Dulyn i ffurfio cysylltiadau a phosibiliadau gweithio ar gyfer y cyfnod ar ôl Brexit.

Hyrwyddo twristiaeth ar Ynys Môn ac fe wnes ymweld â'r llong fordaith Brilliance of the Seas gyda 2,000 o deithwyr arni.

Cymerais ran yn 6$^{ed}$ Ras Hwyl 5k Llandegfan, gan groesawu 350 o redwyr i'r digwyddiad.

Cymerais ran yn ras 10k gyntaf Biwmares – Tonnau i'r Tyrrau.

Fel Deilydd Portffolio, llwyddais i ddarparu'r cae 3G maint llawn cyntaf ar Ynys Môn.

Rwy'n aelod o Bwyllgor Grantiau y Gist Gymunedol ac wedi rhoi miloedd o arian i grwpiau lleol.

Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd ledled y DU ar faterion yn cynrychioli Ynys Môn ac yn gwthio i gael y gorau i'r ynys bob tro.

Rwy'n cefnogi pwyllgor Clwb Pêl-droed Llandegfan.

Cefnogais Glwb Pêl-droed Llangoed yn eu cais am dractor bach torri gwair a chynhwysydd.

Wedi llwyddo i gael arwydd 30mya sy'n fflachio i Lansadwrn

Ymgyrch Glanhau Traeth Biwmares gyda grwpiau lleol a Kiko Matthews.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining.aspx?UID=265&RPID=500087231&LLL=1

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Yn ychwanegol i'm rôl fel Cynghorydd Seiriol, rwy'n dysgu Astudiaethau Busnes ac rwy'n gadeirydd Undeb UCU Coleg Menai. Rwy'n ceisio fy ngorau ym mhob rôl sydd gennyf, ac yn bwysicaf fel gŵr i wraig gefnogol iawn ac fel tad i dri o blant ifanc.

Rwyf wir yn mwynhau helpu pobl, grwpiau a bod yn bencampwr dros Ward Seiriol ar bob achlysur posib. Yn dilyn y newyddion am ohirio Wylfa, rwy'n fwy penderfynol nag erioed i geisio gweithio gydag eraill i greu cyfleoedd swyddi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol fel bod modd iddynt hwy hefyd fyw a gweithio ar ein Hynys am byth.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=265&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Carwyn Jones** | **Mai 2019** |